

Cyfarwyddwyr Newydd 2018: Gwybodaeth i Ymgeiswyr _ _

Cyfarwyddwyr Newydd 2018: Gwybodaeth i Ymgeiswyr _ _

Ers dyddiau cynnar NTW, rydym wedi bod yn cefnogi cyfarwyddwyr i ddatblygu ac ehangu eu harfer trwy ein cyfleoedd Cyfarwyddwr Newydd; p'un a ydynt ar ddechrau eu gyrfaedd cyfarwyddo neu'n fwy sefydledig ac wedi gwneud eu cynyrchiadau eu hunain, mae'r swydd Cyfarwyddwr Newydd wedi nodi newid sylweddol yng ngyrfaedd y rhai sydd wedi cymryd rhan.

Beth yw Cyfarwyddwr Newydd? _

Mae gennym Gyfarwyddwr Newydd ar y rhan fwyaf o'n cynyrchiadau. Maent yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr(wyr) ac Artistiaid Arweiniol ein cynyrchiadau. Maent yn eu cefnogi i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y gwaith tra'n cael cipolwg hollbwysig ar y broses o greu cynhyrchiad ar raddfa fawr, yn aml mewn cyd-destun safle a chyda chysylltiadau pwysig â chymunedau lleol. Mae rôl y Cyfarwyddwr Newydd yn elfen allweddol o'r tîm ac mae angen bod yn bresennol yn ystod ymchwil, ymarferion, yr wythnos gynhyrchu a rhai perfformiadau.

Gall cyfrifoldebau gynnwys: ymgymryd ag ymchwil ar ran y cyfarwyddwr; cymorth gyda chastio; presenoldeb mewn cyfarfodydd dylunio, cynhyrchu neu gynllunio; cymryd nodiadau yn yr ystafell ymarfer ar ran y cyfarwyddwr; ymarfer llinellau gydag actorion; cefnogi'r rheolwyr llwyfan gyda pharatoi amserlenni ymarfer a thasgau cefnogi sylfaenol eraill gan gynnwys rhedeg. Yn dibynnu ar y prosiect, efallai y bydd cyfleoedd hefyd i gyfarwyddo rhannau penodol o'r cynhyrchiad neu gyfarwyddo castiau cymunedol.

Mi fyddwn yn penodi pum Cyfarwyddwr Newydd i weithio ar ein tymor **2018** ac i fod yn rhan o Grŵp Cyfarwyddwyr Newydd cyntaf NTW.

Grŵp Cyfarwyddwyr Newydd _

Mae'n bwysig inni fod pob Cyfarwyddwr Newydd yn cael profiad fydd yn cyfoethogi yn broffesiynol ac yn bersonol, ond credwn hefyd ei bod hi'n bwysig rhannu eich profiadau ag eraill a thrwy wneud hynny, dysgu mwy am y profiad eich hun. Yn ogystal â chymryd rhan yn uniongyrchol mewn un cynhyrchiad gan NTW, bydd Cyfarwyddwyr Newydd Tymor 2018 yn ffurfio carfan unigryw a chefnogol a fydd yn cyfarfod sawl gwaith yn ystod y tymor (isafswm o dri chyfarfod) i drafod eu profiadau a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu gyda gweddill y grŵp. Bydd y grŵp hefyd yn chwilio am ddulliau diddorol o rannu eu profiadau gyda'r gymuned artistig ehangach. Bydd gan y grŵp amser cyswllt gyda Kully Thiarai, Cyfarwyddwr Artistig NTW, a bydd yn cael ei arwain gan Simon Coates, Pennaeth Datblygiad Creadigol. Erbyn diwedd y tymor, bydd pob Cyfarwyddwr Newydd yn gadael gyda sgiliau, technegau ac ymarferion newydd, ystod o gysylltiadau newydd yn y diwydiant, cipolwg unigryw o'r prosesau gwneud gyda NTW a chynllun datblygu personol ar gyfer y dyfodol. Rhagwelir y bydd y grŵp yn cyfarfod yng Nghaerdydd.

Dyddiadau _

Mae presenoldeb yn ystod y cyfnod ymarfer a chynhyrchu yn bwysig iawn. Ein bwriad yw y bydd y Cyfarwyddwyr Newydd yn gallu mynychu cyfarfodydd creadigol a chynhyrchu allweddol trwy gydol y broses gynhyrchu, lle bo modd. Gweler isod am amserlenni cynhyrchu penodol.

Mae hefyd yn hanfodol bod y Cyfarwyddwyr Newydd yn mynychu sesiynau'r Grŵp Cyfarwyddwyr Newydd. Bydd y dyddiadau ar gyfer y rhain yn cael eu trefnu gyda'r grŵp ar ddechrau'r tymor.

Bwrsariaeth, teithio a llety _

Mae bwrsariaeth yn cael ei thalu i bob Cyfarwyddwr Newydd i gefnogi eu cyfranogiad yn y cyfarfodydd grŵp a'r cynhyrchiad, a bydd yn cael ei phennu gan ofynion amserlenni'r cynhyrchiadau unigol (gweler isod am ragor o wybodaeth).

Bydd NTW yn ymdrechu i helpu i ddod o hyd i'r ateb gorau i deithio a llety ar gyfer pob Cyfarwyddwr Newydd wrth weithio ar y cynhyrchiad, ac i gefnogi eu cyfranogiad yn y cyfarfodydd grŵp os nad ydynt yn byw'n lleol.

Pwy all wneud cais? _

Mae NTW wedi ymrwmo i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Trwy Gyfarwyddwyr Newydd, ein bwriadu penodol i gefnogi datblygiad Cyfarwyddwyr sy'n byw yng Nghymru ac yn ymroddedig i wneud gwaith yng Nghymru.

Mae'r cyfle hwn yn agored i artistiaid o unrhyw oedran, rhyw, ethnigrwydd, tueddfryd rhywiol a statws anabledd. Byddwn yn ymdrechu i wneud unrhyw ddarpariaethau gofynnol, yn y cyfweiliad ac yn y gwaith, i sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i'r cyfle hwn. Os hoffech drafod eich anghenion, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Ar gyfer pob cynhyrchiad, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan unigolion sydd â chysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Gweler amserlenni'r cynhyrchiadau isod am ragor o wybodaeth.

Cynhyrchiadau a gynhwysir yn y Cyfarwyddwyr Newydd 2018:

The Storm Cycle 2018 - 2020

STORM.1: Nothing Remains the Same _

STORM.2: Things Come Apart _

Crëwyd gan Mike Pearson a Mike Brookes

Bydd The Storm Cycle yn gyfres o chwe chynhyrchiad a luniwyd, a gynlluniwyd ac a gyfarwyddwyd gan Pearson a Brookes. Bydd y gweithiau amlgyfrwng hyn yn cael eu perfformio mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, ar wahanol raddfeydd a meintiau, a byddant yn archwilio dwy thema allweddol; gwirionedd a thystiolaeth. Byddant yn dod i ben yn 2020 gyda chreu cynhyrchiad mawr, newydd, ar raddfa fawr ar gyfer rhaglen pen-blwydd NTW yn 10 oed.

NODIADAU: rydym yn awyddus i ddod o hyd i Gyfarwyddwr Newydd â diddordeb/profiad yn y cyfryngau a thechnoleg mewn perfformio a/neu y rheini sy'n gweithio yn y rhyngwyneb rhwng rolau dylunydd golygfeydd a chyfarwyddwr. Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gysylltu un Cyfarwyddwr Newydd i The Storm Cycle yn ei gyfarwydd, fydd yn dod i ben yn 2020 - caiff hyn ei drafod yn fwy manwl yn y cyfweiliad. Mae'r bwrsariaeth a hysbysebwyd ar gyfer y cyfle hwn yn berthnasol i STORM.1 a STORM.2 yn unig, fel y nodwyd yn amserlen y cynhyrchiad isod.

English _

National Theatre Wales and Quarantine

Wedi'i gyfarwyddo gan Richard Gregory

Dywedir erbyn diwedd y ganrif hon, byddwn wedi colli mwy na hanner ieithoedd y byd. Ym mis Mehefin, bydd NTW yn cydweithio â Quarantine i greu cynhyrchiad newydd sbon sy'n archwilio iaith, ymfudiad a hunaniaeth, sut rydym yn dysgu siarad, a sut rydym yn dysgu gwrando.

NODIADAU: Rydym yn awyddus i ddod o hyd i Gyfarwyddwr Newydd â diddordeb/profiad mewn ymarfer perfformiadau dyfeisiedig. Gobeithiwn y bydd y Cyfarwyddwr Newydd yn gallu parhau i fod yn rhan o fywyd teithiol y cynhyrchiad hwn y tu hwnt i'r dyddiadau cychwynnol a amlinellwyd yn amserlen y cynhyrchiad.

Gŵyl NHS70

Splish Splash _

National Theatre Wales a Oily Cart

Cyfarwyddwyd gan Tim Webb

Cynhyrchiad amlsynhwyrdd, teithiol o dan y dŵr yn arbennig i blant a phobl ifanc 3-19 oed, a berfformir mewn ysbytai ac ysgolion. Bydd tair fersiwn: un ar gyfer y rheini sydd ag anabledau dysgu dwys a lluosog, un arall i'r rhai sydd ar y sbectrwam awtistiaeth, a thrydedd ar gyfer pobl sy'n fyddar ac yn ddall. Eu nod yw cyflwyno rhyfeddod dyfrllyd, lle hudol lle mae pob synnwyr wrth ei fodd.

NODIADAU: Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan Gyfarwyddwyr sydd â diddordeb neu gefndir arbennig mewn gwneud gwaith i bobl ifanc, y Celfyddydau ac Iechyd neu Gelfyddydau Anabled. Bydd y cynhyrchiad hwn yn cynnwys peth teithio.

Touch _

Gan National Theatre Wales a Migrations. Crëwyd gan Julie Nioche (Ffrainc),

Filiz Sizanli a Mustafa Kaplan (Twrci)

Darn dawns safle-benodol, rhyngweithiol a chyffyrddol am agweddau therapiwtig dawns a lle cymdeithasol y corff. Wedi'i wneud a'i berfformio mewn cyfleuster meddygol yng ngogledd Cymru, bydd y darn yn cael ei wneud gyda dawnsywyr lleol, rhai proffesiynol a rhai nad ydynt yn broffesiynol.

NODIADAU: Rydym yn awyddus i glywed gan Gyfarwyddwyr yng Ngogledd Cymru a'r rheiny sydd â diddordeb neu gefndir arbennig yn y Celfyddydau ac Iechyd neu arferion symud.

The Tide Whisperer _

Ysgrifennwyd gan Louise Wallwein

Chyfarwyddwyd gan Kully Thiarai

Bydd y perfformiad safle-benodol hwn yn mynd i'r afael â ffenomen fyd-eang dadleoli a symud torfol lle bydd cynulleidfaoedd yn mynd i'r môr i archwilio arfordir Sir Benfro ar gwch.

NODIADAU: Mae gennym diddordeb arbennig mewn clywed gan Gyfarwyddwyr yng Ngorllewin Cymru neu sydd â phrofiad uniongyrchol o themâu'r gwaith.

Am ragor o wybodaeth am y cynyrchiadau, gweler ein datganiad i'r wasg ar gyfer y tymor: nationaltheatrewales.org/cy/tymor-2018-ntw

Yn ymuno â'r Grŵp Gyfarwyddwyr Newydd fydd Tina Pasotra a fydd yn parhau i weithio ar Sisters, cyd-gynhyrchiad NTW gyda Junoon Theatre, wedi'i gyfarwyddo gan Kully Thiarai.

I wneud cais _

Anfonwch gopi o'ch CV diweddaraf (uchafswm dwy ochr A4) atom gyda:

- _ manylion cyswllt llawn a linc i'ch Proffil Cymuned NTW
- _ manylion eich profiad cyfarwyddo/gwneud theatr - gan weithio gyda chastiau proffesiynol a/neu rhai nad ydynt yn broffesiynol
- _ manylion cyswllt dau ganolwr sy'n gwybod am eich gwaith

Hefyd, llythyr eglurhaol (uchafswm un ochr o A4) yn manylu:

- _ pam rydych chi'n credu mai dyma'r cyfle cywir i'ch cefnogi chi a'ch datblygiad ar hyn o bryd, a'r hyn yr ydych yn gobeithio ei gael allan o'r profiad;
- _ pa ddau gynhyrchiad y mae gennych y diddordeb mwyaf mewn gweithio arnynt a pham, gan sôn am unrhyw brofiad perthnasol sydd gennych
- _ atganiad am eich cysylltiad â Chymru: rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu theatr a gwneud theatr yng Nghymru.

Bydd angen i chi hefyd lenwi ffurflen arlein Cyfle Cyfartal. Gwelir y ffurflen yma:

<http://bit.ly/2zoWvOe>

Anfonwch y dogfennau uchod i: submissions@nationaltheatrewales.org

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: hanner dydd ar 5 Ionawr 2018.

Cynhelir y cyfweiliadau ar **29 Ionawr 2018** (Caerdydd).

Amserlenni'r Cynyrchiadau _

The Storm Cycle

Nodwch os ydych chi'n gwneud cais am The Storm Cycle bydd angen i chi fod ar gael ar gyfer yr holl ddyddiadau a amlinellwyd ar gyfer STORM.1 a STORM.2

STORM.1: Nothing Remains the Same _

Cyn-gynhyrchu: 3 diwrnod

Ymarferion: Wythnos yn dechrau 13 a 14 Chwefror

Perfformiadau: 15 - 17 Chwefror

Lleoliad: Pafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid, Ceredigion

STORM.2: Things Come Apart _

Ymarferion: 14 - 20 Mawrth

Perfformiadau: 21 - 24 Mawrth

Lleoliad: Eglwys y Tabernacl, canol dinas Caerdydd

Bwrsari ar gael (STORM.1 a STORM.2): £2,000

Gŵyl NHS70

Splish Splash _

Ymarferion: 18 - 30 Meh (Cymru, union leoliad i'w gadarnhau)

Perfformiadau: 2 - 28 Gorffennaf

Lleoliad: Lleoliadau'r GIG ac Ysgolion Arbennig ledled Cymru

Lefel y Fwrsariaeth: £3,000

Touch _

Ymarferion: 23 - 26 Gorffennaf

Perfformiadau: 28 - 30 Gorffennaf

Lleoliad: Lleoliad y GIG, Gogledd Cymru

Lefel y Fwrsariaeth: £1,200

English _

Ymarferion: Wythnos yn dechrau 8 Mai

Wythnos Dech: Wythnos yn dechrau 11 Mehefin

Perfformiadau: 14 - 17 Mehefin a 20 - 24 Mehefin

Lleoliad: Caerdydd

Lefel y Fwrsariaeth: £3,000

The Tide Whisperer _

Cyn-gynhyrchu: 5 diwrnod
Ymarferion: Wythnos yn dechrau 20 Awst
Wythnos Dech: Wythnos yn dechrau 10 Medi
Perfformiadau: 13 - 15 Medi
Lleoliad: Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro
Lefel y Fwrsariaeth: £2,000

Sylwer: bydd rhai cyfarfodydd achlysurol ar y safle/yn swyddfeydd NTW fel rhan o'r holl weithgarwch a amlinellir uchod.

Cysylltu _

Os ydych chi am drafod syniadau neu ofyn cwestiwn i ni, cysylltwch!

Simon Coates

Pennaeth Datblygiad Creadigol

simoncoates@nationaltheatrewales.org

Gwenfair Hawkins

Cynorthwydd Datblygiad Creadigol


gwenfairhawkins@nationaltheatrewales.org

National Theatre Wales

30 Arcêd y Castell

Caerdydd

CF10 1BW

 +44 (0)29 2035 3070

 info@nationaltheatrewales.org

 nationaltheatrewales.org

 community.nationaltheatrewales.org

 [@NTWTweets](https://twitter.com/NTWTweets)

 [National Theatre Wales](https://www.facebook.com/NationalTheatreWales)

© 2017. Cedwir pob hawl.

Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr

Rhif Cofrestredig y Cwmni: 6693227

Rhif Cofrestredig Elusen: 1127952.